

Addysg Cynradd

1) Mae'r Llywodraeth wedi cymeradwyo Cynllun Strategol y Gymraeg mewn addysg Cyngor Sir Gaerfyrddin, ond mae trefniadau'r llywodraeth ei hun yn ei gwneud yn anos gweithredu'r strategaeth. Yn hanfodol i gynllun Sir Gar y mae rhoi ysgolion y sir ar gontinwmm i fod yn ysgolion Cymraeg. Ond mae'r Llywodraeth yn dehongli fod pob cam ar hyd y continwmm yn ymaerfol yn newidiad yng nghategori iaithyddol yr ysgol, ac felly rhaid cael ymgynghoriad llawn os bydd hyd yn oed un person yn gwrthwynebu symudiad. Mae hyn yn arafu'n sylweddol gweithredu'r strategaeth. Mae nifer o ddiffiniadau categorïau ieithyddol y llywodraeth hefyd yn amherthnasol i Sir Gar.

2) Cynigir y dylai'r llywodraeth -

(a) ddirprwyo i gynghorau sir yr hawl i lunio (yn eu cynlluniau strategol) categorïau ieithyddol addas iddyn nhw

(b) newid trefniadau ymgynghoriadau . Os bydd dwy ran o dair o rieni a llywodraethwyr ysgol yn cytuno i symudiad ar hyd y continwmm yn dilyn ymgynghoriad cryno anffurfiol, fod hawl i Gyngor Sir symud ymlaen.

(c) fod y llywodraeth ei hun yn cymryd nifer o benderfyniadau ar lefel cenedlaethol fel na bo angen ymgynghoriadau llawn i weithredu'r newidiadau hyn yn lleol e.e.1 - datblygiad polisi cenedlaethol o ran Cymreigio'r Cyfnod Sylfaen e.e.2 - dileu "Cymraeg Ail Iaith" a gweithredu argymhellion Sioned Davies fel bod pob disgybl yn astudio "Cymraeg" ac yn derbyn o leiaf rhyw gyfran o'r addysg trwy gyfrwng y Gymraeg (hyn eisoes yn digwydd yn yr ysgolion gorau).

3) Mewn unrhyw broses ymgynghorol fod

(a) annog cefnogwyr newid i ymateb, nid gwrthwynebwyr yn unig

(b) fod ymdrech i rymuso llywodraethwyr gyda ffeithiau/dadleuon ar adeg symud ar hyd cwericwlwm e.e.1 cynhyrchir pecyn i lywodraethwyr e.e.2 bydd sesiwn briffio cadeiryddion

(c) fod pwysleisio fod ymdrech i sicrhau na chaiff plant eu hamddifadu o'r gallu i weithio'n Gymraeg a'u rhoi tan anfantais. Sylw at yr holl swyddi ble mae prinder ymgeiswyr Cymraeg ac felly gyfleon i ymgeiswyr Cymraeg

4) Wrth symud ysgol Saesneg i ddechrau taith ar hyd continwmm Cymraeg

(a) fod defnyddio unrhyw ad-drefniant, fel a wnaed yn Llanelli.

(b) fod adran am yr iaith yn y cytundeb rhwng yr Awdurdod a'r ysgol

(c) fod canolbwyntio adnoddau Cymraeg i Oedolion ar wella sgiliau a rhoi hyder i'r 30% o athrawon cynradd nad ydynt yn teimlo'n alluog i addysgu'n Gymraeg ar y funud.

(ch) gall ysgol Saesneg symud ar y continwmm trwy ddod yn ysgol 2-ffrwd neu drwy fod y Cyfnod Sylfaen yn Gymraeg i bawb.

5) Gall ysgol 2-ffrwd ddod yn ysgol Gymraeg oherwydd defnydd adnoddau - hynny yw, dim digon o adnoddau i gynnal frfrydiau cyfochrog, ac felly ffrwd Saesneg yn anhyfyw.

6) Mae problem benodol fod nifer o blant gyda phroblemau arbennig yn cael eu halltudio o ysgolion Cymraeg i ysgolion Saesneg trwy'r honiad mai "problem iaith" sydd.

7) Bu datblygiad mawr o ran Cymreigio ysgolion cynradd yn yr 80au trwy gategori "A", ond does dim llawer o ddatblygiadau wedi bod ers hynny (am 30 mlynedd) hyd yn ddiweddar iawn. Felly mae llawer o waith "dala lan" o ran y nod o wneud y Gymraeg yn brif iaith addysg (a gweithgareddau ieuentid a hamdden) fel norm. Cydnabyddir fod anhawster gan y Cyngor o ran enwi ysgolion unigol wrth ddiweddarau amserlen gweithredu'r strategaeth o ran y continwmm - gan y gall fod adeg sensitif o ran creu cytundeb gydag ysgol.

Cydnabyddir ymrwymiad arweinyddiaeth newydd y Cyngor a'r swyddogion at symud ysgolion ar hyd y continwmm, a chydbnabyddir fod y broses wedi cychwyn o dan arweinyddiaeth Kevin Madge cyn hynny.

Addysg Uwchradd

DILYNIANT ADDYSG

- Cytunwyd bod dilyniant CA2-3 wedi gwella'n sylweddol o ran y Gymraeg fel mamiaith a chyfrwng dysgu.
- Serch hyn, mae polisi newydd yr uwchradd wedi golygu bod plant wedi eu colli o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i rai cyfrwng Saesneg ond teimlwyd i raddau mai ymateb cychwynnol oedd hyn ac y dylai wella wrth i'r polisi newydd wreiddio
- Nodwyd bod yr ysgolion uwchradd am lynnu wrth eu polisi.

SYMUD YSGOLION AR HYD Y CONTINIWM

- O ran symud ar hyd y continiwm ieithyddol, cytunodd pawb nad yw dysgu Cymraeg fel ail iaith yn gweithio ac y dylid ei ddileu a sefydlu system newydd gyda chefnogaeth ddigonol i ysgolion a disgyblion.
- Eto, byddai angen marchnata hyn.
- Nodwyd bod ysgolion Dyffryn Aman a Bro Dinefwr eisoes wedi symud o gategori 2C i 2B yn ddiweddar a bod hyn i'w groesawu.
- Mae Bro Myrddin hefyd yn y broses o wneud hynny, a theimlwyd ar yr un pryd y dylid gwthio Ysgol QE High i symud i fyny'r raddfa.
- Nodwyd bod angen cynnig yr un ddarpariaeth o ran addysg Gymraeg ym mhob ardal ac nad oedd yn deg bod disgyblion yn gorfod teithio o'u cymunedau i dderbyn addysg Gymraeg gyflawn.

MARCHNATA

- Cytunwyd bod angen marchnata addysg Gymraeg yn fwy gyda negeseuon dealladwy.
- Cytunwyd bod gwerth i negeseuon academaidd a rhyngwladol, ond bod pwysigrwydd mawr hefyd i farchnata mewn iaith ddealladwy yn cyfeirio at faterion dydd i ddydd, e.e. gwell cyfleoedd swyddi, etc
- Teimlwyd bod llawer o'r negeseuon ddim yn cysylltu â'r rhieni.
- Er hyn, nodwyd mae digon o ymchwil rhyngwladol yn dangos manteision dwyieithrwydd a gellid gwneud gwell defnydd o hwn wrth dargedu cynulleidfaoedd penodol.
- Angen sôn am y manteision mewn dull dealladwy – o ran gwaith academaidd ac ymarferol.
- Cytunwyd bod rhagfarnau ar wahanol lefelau ond bod angen gwerthu manteision swyddi – rhywbeth clir i'r rhieni ddeall.
- Teimlwyd bod rhieni yn amddifadu eu plant o sgil gwerthfawr os nad yn rhoi addysg ddwyieithog iddynt.
- Nodwyd bod marchnata celwyddog yn digwydd gan rai ysgolion cyfrwng Saesneg, gan nodi eu hunain fel ysgolion dwyieithog, ond mae prawf amlwg nad ydynt yn cynhyrchu plant dwyieithog (gydag ambell eithriad)
- Mae angen bod yn glir wrth rieni beth yw deilliant mynychu'r gwahanol ysgolion o safbwynt sgiliau ieithyddol eu plant.
- Cytunwyd hefyd y dylid defnyddio plant i farchnata'r Gymraeg, gan ddangos enghreifftiau niferus o lwyddiant, a defnyddio plant o bob cefndir ieithyddol.

Angen datblygu hyder mewnol y plentyn yn y Gymraeg (Defnydd = Hyder = Rhuglder)Darpariaeth i Hwyr-ddyfodiaid

Darpariaeth i Hwyr-ddyfodiaid

Soniwyd am gwrs gan Cymraeg i Oedolion o'r enw Cymraeg i'r Teulu. Mae'n gwrs unwaith yr wythnos am awr a hanner ac yn cael ei gyflwyno dros blwyddyn neu ddwy flynedd. Dywedwyd nad oedd y cwrs wedi bod ar gael yn ardal Castell Newydd Emlyn. Mae ar gael i ysgolion yng Ngheredigion – mae Pennaeth ysgol yn hysbysebu bod y cwrs ar gael ac yna os oes galw mae'n digwydd yn ystod amser ysgol. Mae'n costio £25 am ddeg wythnos (mae cwrs wedi bod eleni yn Aberteifi - 7 person yn mynychu). Gwelsom enghraifft o'r llawlyfr gan un o aelodau'r grŵp. Soniwyd bod modd cael app o'r enw Cymraeg i'r Teulu sy'n fersiwn o'r cwrs sy'n cynnwys ffeiliau sain. Soniwyd am ambell app arall sydd ar gael e.e. app cwrs CA (Cyfnod Allweddol) 2 Powys sydd ar yr un ffurf a'r uchod.

Eglurwyd bod Sir Gar yn cynnig cwrs dan ofal AGGaD (Athrawon Gwella'r Gymraeg a Dwyieithrwydd) o'r enw Dechrau Da sy'n targedu rhieni di-Gymraeg newydd i ysgol (nid oes yn rhaid iddynt fod yn hwyrddyfodiaid). Nid cwrs iaith yw hwn yn benodol ond cwrs sy'n cynnig cyngor ar sut i annog a chefnogi plentyn sydd newydd ddechrau yn yr ysgol ac sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae ar gael hefyd ar gyfer ysgolion sy'n dysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg ond sydd eisiau cynnig mwy o Gymraeg os ydy'r rhieni yn ymateb yn gadarnhaol i'r cynnig gan y Pennaeth.

Mae cyrsiau Blas Ar Gymru wedi cael ei gynnig i rhieni'r hwyrddyfodiaid dan nawdd y llywodraeth i ddechrau ac yna o dan y Cyngor Sir, ac mewn cyd-weithrediad a'r Mentrau Iaith ar gyfer teuluoedd y plant oedd ar y cyrsiau mewn Canolfannau Iaith.

Soniwyd am gwrs arall i rieni yng Nglan y Fferi sy'n cael ei redeg gan Cymraeg i Oedolion lle gall y plant ddod gyda'r rhieni. Modd i dargedu rhieni'r hwyrddyfodiaid

Hefyd Cymraeg o'r Crud eto sy'n targedu rhieni newydd di-Gymraeg sy'n gallu dod a'i babanod newydd eni/plant ifanc. Rhieni sy'n byw yn lleol yn barod yw'r targed fan hyn yn hytrach na rhieni sydd newydd symud i'r ardal ond efallai byddai yn addas i rhai o'r rhain hefyd yn enwedig os oedd plant cyn oed ysgol gyda hwy hefyd. Dyma fel ddechreuodd Kathy Issac un o'r pedwar gyrhaeddodd rownd derfynol Dysgwr y Flwyddyn Eisteddfod Genedlaethol 2013 ac enillodd Dysgwr y Flwyddyn Sir Gar yn 2014. Roedd yn fam newydd oedd wedi symud o ran arall o Gymru i ardal Cwm Gwendraeth ac wedi gweld y gwahaniaeth yn y defnydd o'r

Gymraeg.

Aed ymlaen i sôn am y rhaglen deledu "Make Me Welsh" oedd yn dangos y system yng Ngwynedd. Roedd y rhaglen wedi creu tipyn o argraff ar bawb. Esboniwyd fel nad oes modd trosglwyddo'r un fformiwla i Sir Gar oherwydd bod ysgolion cyfrwng Saesneg gyda ni ac felly gall rhieni symud eu plant o'r ysgolion pentref naturiol Gymraeg eu hiaith ac optio allan yn llwyr o addysgu cyfrwng Cymraeg. Nid yw hwn yn opsiwn yng Ngwynedd. Holwyd pam oedd gennym system lle mae'n bosibl i optio allan o addysg cyfrwng Cymraeg. Onid dylai fod yn amhosibl i wneud hyn os yw'r sir yn honni bod pob plentyn yn mynd i fod yn ddwyieithog yn gadael pob ysgol gynradd. Beth yw ystyr ddwyieithog ond bod mwy neu lai yr un mor rhugl mewn dwy iaith ydyw hynny? Beth sy'n digwydd i blant o tu allan i Gymru neu di-Gymraeg sy'n cyrraedd un o'r ysgolion ail iaith sydd yn gweithio tuag at cael plant "dwyieithog" ym mlwyddyn 5 neu 6. Dylai gweddill y disgyblion yn y dosbarth fod yn bell ar y blaen gyda'r iaith. Oes help gyda'r Gymraeg yn cael ei gynnig i rhain, oes canolfan iaith ar eu cyfer hwythau. Gall plentyn galluog droi yn erbyn yr iaith o gael y teimlad o methu deall dim pan yn cymharu ei hun gyda gweddill y dosbarth. Beth sy'n digwydd yn yr ysgolion uwchradd. Eto mae plant galluog yn ffeindio eu hun yn gorfod ymuno gyda'r set waelod ar gyfer gwersi Cymraeg yn unig ac felly'n cael profiad diflas a negyddol iawn gyda'r iaith. Y plant anghofiedig? Efallai petai'r rhieni yn deall mwy am yr iaith y byddent yn awyddus i'w plant gael y cyfle i gael gwersi dwys? Gallu ymuno gyda hwy gan y byddent mwy neu lai yn gallu gwneud yr un lefel o waith?

Beth am y plant o Wlad Pwyl – maent yn codi'r Gymraeg yn gynt na'r plant lleol di-Gymraeg. Ydy eu rhieni yn deall y system? A fyddent yn dymuno i'r plant sy'n byw yn y dref fynychu ysgol Gymraeg petaent yn cael y system wedi ei esbonio iddynt? Oes ymgais wedi ei wneud i gyrraedd y teuluoedd yma neu a ydy rhywun wedi penderfynu drostynt heb eu holi? Efallai bod cymydog sy'n hanfon ei blentyn i ysgol cyfrwng Saesneg wedi meddwl, yn anghywir o bosibl, na fyddai'r teulu o wlad Pwyl eisiau dysgu'r Gymraeg? Oes rhywun wedi gofyn y cwestiynau hyn?

Soniodd un o'r grŵp ei bod wedi cael ei holi i gymryd cwrs iaith ar ôl ysgol i rieni yn un o ysgolion Dyffryn Aman, ond roedd yn rhaid iddi ddarparu'r gwersi ei hun. Y Fenter iaith lleol oedd yn rhedeg y cwrs ond doedd yr AGGaD ddim yn ymwybodol o'r cwrs er bod cwrs tebyg wedi ei gynnig y flwyddyn ganlynol yn yr un ysgol.

Mae'n amlwg bod angen system lle mae'r asiantaethau sy'n cynnig "gwersi" Cymraeg siarad gyda'i gilydd a bod angen sicrhau cysondeb yn y neges, safon a natur cyrsiau fel hyn, fel nad oes ail adrodd o'r un math o iaith ddechreuol a bod modd rhannu adnoddau ac adnoddau dynol. Mae hefyd angen sicrhau cymwysterau a phrofiad rhai sy'n addysgu. Mae tystiolaeth o amrywiaeth mawr yn cymwysterau'r pobl sy'n cynnig y "gwersi" yma. Nid yw pob athro sy'n siarad Cymraeg yn hyddysg yn y sgiliau arbenigol sydd angen i addysgu iaith yn effeithiol. Mae hyd yn oed angen sgiliau gwahanol i addysgu Cymraeg fel ail iaith a iaith gyntaf. Mae enghreifftiau o bobl yn cymryd "gwersi" Cymraeg lle eu hunig gymhwys yw'r ffaith eu bod yn gallu siarad yr iaith. Gall y pobl yma, er bod eu calon yn y lle cywir, fod yn gwneud mwy o ddrwg nag o ddaioni ac weithiau maent yn tansellio cyn brofiad mewn "gwersi" ffurfiol. Gall asiantaeth fod ddigon ffodus i daro ar unigolyn sydd a phrofiad fel cyn athro/athrawes ail iaith ond ofnaf mai lwc sy'n gyfrifol am hynny a ni ddylid arbrosi i weld "sut mae hi'n mynd" gyda'r pobl yma. Os mae hi digwydd mynd yn wael mae'r cyfle yna wedi'i golli.

(pwynt na thrafodwyd ond rwy'n teimlo mwy a mwy o gofio beth dw i'n ei glywed gan ddysgwyr awyddus yw bod angen cael grŵp neu wersi i hyfforddi Cymry Cymraeg ar sut i siarad gyda dysgwyr. Mae mor bwysig eu bod yn cael ymarfer ond mae angen helpu pobl i'w helpu, a dyw dweud "we don't say it like that" ddim yn helpu!

Teimlwyd bod angen mwy o gyd-weithio a siarad am beth sy'n digwydd yn ble a phwy yw'r personel sydd wrthi'n gwneud y "dysgu" yma gan yr holl fudiadau sydd yn berthnasol, y cyngor sir, mudiad meithrin, Cymraeg i oedolion, mentrau iaith etc.

Soniwyd bod awdit yn cael ei wneud ynglŷn â'r Gymraeg a bod llawer o gwestiynau yn dod i mewn i'r awdit hwnnw.

Roedd sawl un yn y grŵp yn gyfarwydd a'r hen system lle roedd canolfan sefydlog mewn bron pob ardal o fewn y sir ac yn holi beth oedd wedi digwydd i'r rheini – un yn sôn ei bod yn llywodraethwraig ac yn methu deall pam nad oedd y plentyn newydd yn ei hysgol hi wedi mynd yn syth i Ganolfan fel oedd arfer digwydd pan roeddynt yn cyrraedd yr ysgol. Esboniwyd bod llai o dim AGGaD, rhai wedi ymddeol a neb yn dod yn eu lle felly doedd dim Canolfannau fel o'r blaen ond bod targedu ardaloedd yn digwydd a bod Canolfannau yn cael ei chynnal mewn ardal yn ôl y galw yn hytrach na chwech canolfan yn rhedeg ar yr un amser fel o'r blaen. Mae costau cludo plant i'r Canolfannau yn broblem ddrud iawn. Mae Gorsafoedd iaith hefyd yn cael eu cynnal ar hyd y Sir yn targedu plant Blwyddyn 5 er mwyn codi eu lefel yn y Gymraeg (fel iaith gyntaf). Mae'n rhaid cludo'r plant yma i'r Gorsafoedd hefyd.

Mynegwyd bod yr argymhellion yn y ddogfen oedd yn sôn am y Canolfannau iaith ddim yn ddigon heriol er mwyn symud ymlaen. Disgwyl gweld rhywbeth mwy pendant.

Holwyd am sefyllfa'r ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Croesawyd y newyddion eu bod yn cynnig mwy o

bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ond holwyd a oedd hwn yn wir yn mynd i ddigwydd? Beth os nad oedd llawer o blant yn y dosbarth cyfrwng Cymraeg. sôn am wersi dwyieithog lle roedd mwyafrif y wers drwy gyfrwng y Saesneg a bod nodiadau Cymraeg yn cael eu rhoi i'r plant oedd fod i wneud y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Annheg ar yr athro sy'n gorfod paratoi dwywaith cymaint o nodiadau ac ar y plant cyfrwng Cymraeg oedd yn derbyn y "wers" drwy gyfrwng y Saesneg neu pob plentyn oedd yn cael hanner gwers achos bod yr athro yn cyflwyno'r un wybodaeth ddwywaith yn y gofod amser hynny. Ydy'r peth yn gynaliadwy?

Beth am hwyrddyfodiaid sy'n cyrraedd y sector uwchradd. Os ydy'r cynradd cyfrwng Saesneg yn gwneud eu gwaith yn iawn yna bydd y plant yma ar goll yn yr ysgol cyfrwng Saesneg?

Gwasanaethau Ieuenctid

Argymhelliad 55 - Bod y Cyngor Sir yn cydlynu grŵp gweithredu strategol fyddai'n cynnwys ysgolion uwchradd, mudiadau ieuenctid y sir, y sector addysg bellach ac uwch a'r sector hamdden i gynllunio a chysylltu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau posib o'r adnoddau sydd ar gael o fewn y Sir, i dargedu adnoddau yn ôl y gofyn ac i adnabod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Trafodwyd yr angen i sefydlu grŵp gweithredu byddai'n cynnwys ysgolion Uwchradd, Mudiadau Ieuenctid y sir, y sector addysg bellach ac uwch a'r sector hamdden i gynllunio a chysylltu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Er bod Fforwm Strategol yr Iaith Gymraeg Sir Gâr wedi cael ei sefydlu ac yn weithredol nid ydy'r Fforwm yn cynnwys yr holl fudiadau a sefydliadau perthnasol ac yn yr un modd nid ydy gwaith ieuenctid yn berthnasol i nifer helaeth o aelodau'r fforwm.

Awgrymwyd y gellir gwahodd bobl i ddod i gyfarfodydd y fforwm pan roedd materion ieuenctid yn cael eu trafod neu greu is-grŵp o'r fforwm strategol. Gofynnwyd i'r mater yma gael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y fforwm strategol.

Argymhelliad 58 - Yn unol ag argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Glybiau Ieuenctid (Ionawr 2014) blaenoriaethu cynyddu darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'r ymagwedd strategol newydd drwy gomisiynu rhai sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth ieuenctid agored trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafwyd adroddiad byr ar lafar gan Mr Aeron Rees ynglŷn ar 4 clwb ieuenctid newydd sydd wedi cael eu sefydlu. Mae 3 o'r clybiau yn cael eu rhedeg gan Yr Urdd a'r Mentrau Iaith ac un clwb gan gwmni Whitehead-Ross. Fe fydd y clybiau yn mynd trwy broses arfarnu yn ystod yr wythnosau nesaf. Ar ôl y broses yma fe fydd penderfyniad yn cael eu gwneud ar ddyfodol y clybiau yn ddibynnol ar eu llwyddiant ac ar gyllid y Cyngor. Nododd Dai Bryer o'r Urdd fod y clybiau yn rhai llwyddiannus iawn. Roedd y grŵp yn teimlo ei fod yn bwysig i'r Cyngor Sir barhau i gefnogi'r ddarpariaeth yma.

Oherwydd yr ansicrwydd yn nyfodol y clybiau Cyfrwng Cymraeg holwyd ynglŷn â'r clybiau ieuenctid eraill y mae'r cyngor yn ariannu. Mae 11 clwb arall yn rhedeg ar hyn o bryd gyda nifer yn cael eu nodi yn ddwyieithog. Gofynnwyd i'r cyngor fonitro beth yn union oedd y defnydd iaith o fewn y clybiau yma ac i gynyddu'r defnydd o fewn pob un o'r clybiau.

Codwyd y mater o'r ddarpariaeth tu allan i reolaeth y cyngor h.y. y sector breifat/wirfoddol. Gofynnwyd a oes unrhyw fodd i'r cyngor geisio dylanwadu ar y darparwyr yma er mwyn iddynt gynyddu defnydd y Gymraeg yn eu gweithgareddau.

Darpariaeth Hamdden

Argymhelliad 59 Bod y Cyngor Sir yn sicrhau bod gwersi nofio cyfrwng Cymraeg ar gael ym mhob canolfan hamdden ar draws Sir Gâr;

Mae gwersi nofio ar gael yn Gymraeg ar Lefel 1 yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin. Bydd gwersi nofio Cymraeg ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf yn Rhydaman. Ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn cydweithio gyda'r Urdd i ddarparu gwersi nofio Cymraeg yn Llanelli ym mis Medi. Maent yn gwneud arolwg o'r staff i weld beth yw gallu ieithyddol y staff sydd yn rhedeg y gwersi nofio. Yr her yw i ddarparu gwersi yn uwch na Lefel 1 achos mae plant yn symud fyny'r system yn ôl gallu a nid fesul dosbarth llawn, felly mae angen teilwra'r gwasanaeth yn well. Derbyniwyd nad yw hyn yn mynd i ddigwydd dros nos, ond mae angen sicrhau fod y darpariaeth ar gael.

Argymhelliad 60 Bod y Cyngor Sir yn cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden eraill drwy gyfrwng y Gymraeg;

Erbyn hyn, mae yna hyfforddwyr sgïo ar gael ym Mhenbre ac hefyd Sesiynau Profion Ffitrwydd yn y Canolfannau Hamdden. Ond dylai'r egwyddor fod y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg oni bai fod y cwsmer yn gofyn yn wahanol. Os mae ysgolion Cymraeg neu plentyn o ysgol Gymraeg yn archebu gwers neu sesiwn, dylid darparu sesiwn cyfrwng Cymraeg yn ddiodyn.

Argymhelliad 61 Bod y Cyngor Sir yn cefnogi staff y gwasanaeth hamdden (gan gynnwys canolfannau hamdden, parciau gwledig, llyfrgelloedd a theatrau) sy'n dysgu Cymraeg neu'n medru'r Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau ymhellach er mwyn cynnig gwasanaeth dwyieithog cyflawn;

Eto, mae yna arolwg o'r staff yng nghanolfannau hamdden y sir. Awgrymwyd y dylai'r staff sydd yn gweithio

yn y canolfannau hamdden gyda sgiliau Cymraeg cael eu cynnwys yn y trafodaethau am gynyddu darpariaeth Cymraeg. Efallai bydd y staff yn gallu cynnig syniadau newydd ar hyn.

Argymhelliad 62 Bod y Cyngor Sir yn ymestyn y prosiect Pencampwyr Iaith lle mae'r Cyngor wedi adnabod Pencampwr Iaith i weithredu ym mhob Canolfan Hamdden ar draws y sir ar hyn o bryd, i gynnwys y parciau gwledig, y llyfrgelloedd a'r theatrau;

Mae pencampwyr iaith wedi eu penodi ar gyfer y canolfannau hamdden. Dylid manteisio ar hyn i drafod darpariaeth Cymraeg a hybu'r argymhellion hyn o fewn y canolfannau hamdden.

Argymhelliad 63 Bod y Cyngor Sir a'r Mentrau Iaith lleol yn gweithio gyda chlybiau chwaraeon lleol i'w cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u darpariaeth, gan gynnwys iaith yr hyfforddiant a gweinyddiaeth y clwb (hefyd wedi'i gynnwys yn yr adran sefydliadau sy'n gweithio er budd y Gymraeg);

Soniwyd am gynllun safonau iaith mae Cered (Menter Iaith Ceredigion) yn ei redeg ar hyn o bryd. Mae'r Fenter yn awyddus i wneud hyn yn Sir Gar, a byddai'r clybiau chwaraeon yn lle da i dechrau hyn.

Argymhelliad 64 Bod y cyrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Gymraeg wrth ddatblygu unrhyw brosiectau neu wasanaethau i'w gweithredu o fewn Sir Gâr;

Er nad yw Cyngor Sir Gar yn gyfrifol am y cyrff chwaraeon, dylai'r Cyngor rhoi pwysau arnynt o ran eu darpariaeth o fewn y sir.